

# CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD & YNYS MÔN (2011 – 2026)

## ARCHWILIAD CYHOEDDUS:

### Sesiwn gwrandawriad 6 – Yr Amgylchedd naturiol ac adeiledig



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

#### Pwynt Gweithredu S6/PG1 – Cyffredinol

*Mireinio geiriad polisïau i sicrhau cysondeb o ran disgrifio'r raddfa effaith, h.y. defnydd o 'arwyddocaol' neu beidio.*

#### Ymateb y Cynghorau

Mewn perthynas â'r polisïau sy'n ymwneud gyda'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, mae'r Cynghorau yn credu bod y mater yma yn berthnasol i bolisïau PS16 and AT4 yn unig ac yn cael eu hymdrin o dan Bwyntiau Gweithredu S6/PG5 and S6/PG10 yn ôl eu trefn.

#### Pwynt Gweithredu S6/PG2 – Paragraff 7.5.2

*Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i gywiro brawddeg olaf paragraff 7.5.2 i nodi bod Ynys Môn i gyd wedi cael ei ddynodi gan UNESCO fel Geoparc.*

#### Ymateb y Cynghorau

Wedi ystyried y mater ymhellach ystyrir y symud y frawddeg i'r rhan sydd yn ymwneud a chadwraeth tirwedd yn hytrach na'r rhan sy'n ymdrin gyda 'Cadwraeth Natur'. Hefyd ystyrir y dylid ychwanegu cyfeiriad er egluro beth ydi rhinweddau sydd yn arwain at dynodiad Geoparc. O'r herwydd dymunai'r Cynghorau cynnig y diwygiadau (trwy Newid Materion a Godir) fel y ganlyn:

7.5.2 **Cadwraeth Natur:** Mae rhywogaethau ..... ~~Mae rhan o Ynys Môn wedi'i ddynodi fel Geoparc.~~

7.5.4 **Cadwraeth Tirwedd:** Mae gan ardal y Cynllun dirwedd arbennig ac amrywiol, yn cynnwys Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Arfordir Môn ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn, hyd at ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri. Yn ogystal â'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, sydd wedi'u diogelu ar sail genedlaethol, mae gan ardal ehangach y Cynllun ddarnau o gefn gwlad sydd heb gael ei ddifetha ac sy'n arbennig yn lleol fel bod yn werth eu dynodi'n Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Mae cymeriad a phrydferthwch y dirwedd yn gwella ansawdd bywyd y trigolion yn sylweddol, ac yn dod â buddion mawr, yn gymdeithasol ac o ran iechyd. Mae hefyd yn atyniad mawr i bobl sy'n dymuno ymweld â'r ardal, a thrwy hynny'n cyflawni rôl bwysig ar gyfer yr economi leol. **Yn ychwanegol, mae Ynys Môn gyfan wedi'i ddynodi gan UNESCO fel Geoparc Byd Eang (Geoparc Byd Eang GeoMôn) er mwyn cydnabod amrywiaeth daearegol arbennig yr ynys.**

## **Pwynt Gweithredu S6/PG3 – Paragraffau 7.5.7, 7.5.8 a Thabl 23**

### **Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i:**

- (i) ddisgrifio pwrpas a chynnwys Tabl 23 yn llawnach;
- (ii) gyfeirio at GeoParc Môn yn Nhabl 23, gan gynnwys manylion am y meini prawf a ddefnyddiwyd gan UNESCO i adnabod y parcio yma;
- (iii) ddisgrifio materion sy'n penderfynu arwyddocâd dynodiad lleol, cenedlaethol neu ryngwladol

### **Ymateb y Cynghorau (i)**

~~7.5.7 Mae deddfwriaeth bresennol a pholisïau a chanllaw cynllunio cenedlaethol yn amlinellu datganiadau clir o bolisi rheoli datblygu cenedlaethol. Dylid cyfeirio atynt wrth ffurfio cynigion, a fyddent yn cael eu defnyddio'n lleol o fewn ardal y Cynllun gan y Cynghorau wrth ystyried ceisiadau cynllunio. O'r herwydd, ni fydd y rhain yn cael eu hailadrodd fel polisi ar wahân yn y Cynllun.~~

**7.5.8 Mae Pennod 5 Canllawiau Cynllunio Cymru a NCT 5 yn gosod allan cyfarwyddyd a pholisïau rheolaeth datblygu cenedlaethol clir mewn perthynas â dynodiadau statudol, sy'n adlewyrchu'r pwysigrwydd amgylcheddol dynodiadau statudol rhyngwladol a chenedlaethol o'i gymharu gyda dynodiadau lleol statudol ac anstatudol. Mae'r Tabl 23 yn rhestru'r canlynol yn manylu'r holl ddynodiadau rhyngwladol a chenedlaethol statudol sy'n berthnasol i Ardal y Cynllun ac yn diffinio rhwymedigaeth y dynodiad. Er mai dynodiad anstatudol yw Geoparc GeoMôn, mae hefyd wedi ei gynnwys yn Nhabl 23 oherwydd ei ddynodiad gan UNESCO. Wrth baratoi a chysidro ceisiadau cynllunio fe ddylid ystyried PS16, PCYFF1 ynghyd a Pholisi Cynllunio Cymru ac NCT5. Mae'r ymagwedd yma yn darostwng pob cais cynllunio i gyfarwyddyd a pholisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf yn osgoi ailadrodd diangen trwy'r Cynllun.**

### **Ymateb y Cynghorau (ii)**

<u>Geoparc Byd Eang</u>	<u>Dynodwyd gan UNESCO</u>	<u>Dim</u>	<ul style="list-style-type: none"><li><u>Nid yw Geoparc Byd Eang UNESCO yn ddynodiad deddfwriaethol – er hynny dylid gwarchod y safleoedd treftadaeth geolegol diffiniedig o fewn Geoparc Byd Eang UNESCO o dan ddeddfwriaeth gynhenid, leol, rhanbarthol a chenedlaethol priodol. Nid yw statws Geoparc Byd Eang UNESCO yn golygu cyfyngiadau ar unrhyw weithgaredd economaidd o fewn eu ffiniau, lle mae'r gweithgaredd yna yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth gynhenid, leol, rhanbarthol a/neu genedlaethol.</u></li></ul>
-------------------------	----------------------------	------------	---

## Pwynt Gweithredu S6/PG4 – Polisi AMG 1 & 7.5.11

### **Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i Bolisi AMG 1 a 7.5.11 i:**

- beidio cyfeirio at "(un ai o fewn neu'n union du allan iddo) yn y Polisi;
- roi arweiniad am bryd allir bod angen roi ddisgrifio pryd fydd yn debygol bydd angen asesiad ardrawiad tirwedd a gweledol;
- egluro arwyddocâd y 'Datganiad o Werth Arwyddocâd' fel ystyriaeth cynllunio berthnasol a pha fath o dystiolaeth a ddisgwyllir i gefnogi cais cynllunio.

### Ymateb y Cynghorau

#### **POLISI AMG1: ARDALOEDD O DIRWEDD ARBENNIG**

Wrth ystyried cynigion o fewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) fel yr adnabyddir ar y Mapiau Cynigion a rhestrir isod, bydd angen rhoi ystyriaeth briodol i raddfa a natur y datblygiad gan sicrhau na fyddai'n cael effaith andwyol ar y dirwedd. Ble'n bosib fe ddylai'r datblygiad cynnal neu ychwanegu tuag at nodweddion hanesyddol, gweledol, daearyddol, ecolegol a diwylliannol yr ATA.

Dylai cynigion rhoi sylw i'r ~~a bod yn gyson a'r~~ 'Datganiad o Werth ac Arwyddocâd' perthnasol pwrpasol sydd wedi ei baratoi.

Lle mae'n briodol rhesymol i gredu y gall cynigion arwain i ardrawiad andwyol arwyddocaol ar ATA (un ai o fewn neu'n union du allan iddo) bydd y Cyngor angen yn disgwy! Asesiad Ardrawiad Tirwedd a Gweledol er mwyn gallu ystyried ardrawiad y datblygiad ar yr ardal ddynodedig ymhellach.

Mewn amgylchiadau eithriadol, lle mae'n rhaid cael y datblygiad ac y gallai arwain i ardrawiad arwyddocaol ar y dirwedd, bydd rhaid darparu mesurau lliniaru a digolledu priodol."

~~"7.5.11 Ar gyfer pob ATA mae yna 'Ddatganiad o Werth Arwyddocâd' wedi ei baratoi. Dylid cyfeirio tuag at y datganiad wrth ystyried cynigion datblygu o fewn yr ATA. Er mwyn diffinio'r ATA newydd fe gynhaliwyd adolygiad o'r ATA blaenorol gan geisio sicrhau fod yna fodd cyfiawnhau'r warchodaeth arbennig (h.y. Adroddiad LUC 'Adolygiad o Ardaloedd Tirwedd Arbennig yng Ngwynedd a Môn'). Fel rhan o adroddiad LUC, mae 'Datganiad o Werth ac Arwyddocâd' wedi ei baratoi ar gyfer pob ATA, gan dynnu sylw i'r rhinweddau a'r nodweddion sy'n arwyddocaol i'r dynodiad. Bydd rhaid i cynigion datblygu ddangos bod ystyriaeth wedi cael ei roi i'r 'Datganiad o Werth ac Arwyddocâd' perthnasol. Lle'n berthnasol, dylai hyn fod yn elfen allweddol o wybodaeth gefnogol ar gyfer y cais cynllunio (e.e. Datganiad Dylunio a Mynediad neu unrhyw ddatganiad cynllunio arall) er mwyn dangos bod y cynnig wedi ei ddylunio i ddiddymu neu leihau unrhyw ardrawiad annerbyniol ar y rhinweddau hynny oedd yn sail i ddynodi'r ATA. Dylai manylder y wybodaeth a fydd ei angen fod yn gymesur â graddfa'r cynnig. Er enghraifft, gall Asesiad Ardrawiad Tirwedd a Gweledol fod yn angenrheidiol lle mae'r cynnig yn debygol o gael ardrawiad ar gyfanrwydd a~~

chynaliadwyedd dynodiad yr ATA, neu werthfawrogiad/canfyddiad y cyhoedd o unigrywiaeth a naws am le yn nhermau'r dirwedd. Mae'r Cynghorau yn cynnig gwasanaeth cyngor cyn cyflwyno cais cynllunio, a fydd yn rhoi arweiniad os fydd angen Asesiad Ardrowiad Tirwedd a Gweledol. Mae'n bosib archwilio adroddiad LUC 'Adolygiad o Ardaloedd Tirwedd Arbennig yng Ngwynedd a Môn' -y ddogfen sydd yn esbonio sut ddiffinnir yr ATA ynghyd a'r 'Datganiad o Werth Arwyddocâd' a'r safleoedd we Cyngor Sir Fôn ([www.anglesey.gov.uk](http://www.anglesey.gov.uk)) a Chyngor Gwynedd ([www.gwynedd.llyw.cym](http://www.gwynedd.llyw.cym)) trwy gais i'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd."

## **Pwynt Gweithredu S6/PG5 – PS 16, Maen Prawf 3 / AMG 4 / AMG5**

*Cyflwyno Newid Materion a godir i gryfhau geiriad yr maen prawf ynghyd a Pholisi AMG4 a AMG5.*

## **Pwynt Gweithredu S6/PG1 – Cyffredinol**

*Mireinio geiriad polisiâu i sicrhau cysondeb o ran disgrifio'r raddfa effaith, h.y. defnydd o 'arwyddocaol' neu beidio.*

## **Ymateb y Cynghorau**

Er mwyn osgoi camddealltwriaeth rhwng y Cynllun a'r Map Cyfyngiadau, mae'r Cynghorau yn dymuno, mewn perthynas â safleoedd bywyd gwyllt, disodli 'heb ei asesu' gyda 'ymgeisiol', yn nodiant y Map Cyfyngiadau. Mewn ymateb i'r pwyntiau gweithredu dymunai'r Cynghorau cynnig y diwygiadau (trwy Newid Materion a Godir) fel y ganlyn:

### **POLISI STRATEGOL PS16: GWARDHOD A GWELLA'R AMGYLCHEDD NATURIOL**

Bydd y Cynghorau'n rheoli datblygiad er mwyn gwarchod a **neu** gwella amgylchedd naturiol, cefn gwlad ac arfordir arbennig ardal y Cynllun a gwrthodir cynigion a fydd yn cael effaith **syllweddol** andwyol arnynt **am ydych chi oni bai bod yr angen neu'r bendithion y datblygiad yn y lleoliad yna yn amlwg gorbwyso gwerth y safle neu'r ardal a pholisi gwarchodaeth cenedlaethol ar gyfer y safle a'r ardal dan sylw.** Bydd yr Awdurdodau Cynllunio'n ystyried caniatáu cais byddant yn gwneud yn siŵr ei fod yn:

1. Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau, daeareg, hanes, yr arfordir a thirweddau ardal y Cynllun;
2. Gwarchod a **neu** gwella safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a ble'n berthnasol eu gosodiad yn unol â Pholisi Cenedlaethol;
3. Rhoi sylw **priodol** i arwyddocâd cymharol y dynodiadau **rhyngwladol, cenedlaethol a lleol** wrth ystyried y pwysau i roi ar fuddiannau cydnabyddedig yn unol â Pholisi Cenedlaethol, **er mwyn sicrhau bod unrhyw cyfrifoldebau ac ymrwymïadau rhyngwladol neu cenedlaethol yn cael eu cwrdd yn llawn**;
4. Gwarchod a **neu** gwella bioamrywiaeth o fewn ardal y Cynllun a gwella a/neu adfer rhwydwaith cynefinoedd naturiol yn unol â'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn unol â Pholisi Amg 4;

5. Gwarchod **a neu** gwella bioamrywiaeth drwy rwydwaith o isadeiledd gwyrdd/ glas;
6. Diogelu rhywogaethau sydd wedi'u gwarchod yn rhyngwladol, cenedlaethol ac yn lleol;
7. Gwarchod, parchu, cadw neu wella cymeriad a hynodrwydd lleol yr Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (yn unol â Pholisi AMG2) ac Ardal Cymeriad y Morlun (yn unol â Pholisi AMG3).
8. Gwarchod, parchu, cadw neu wella coed, gwrychoedd, coetiroedd o werth gweledol, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol a mwynderol.

#### **POLISI AMG4: CADWRAETH BIOAMRYWIAETH LEOL**

Dylai cynigion warchod a, ble'n briodol, gwella bioamrywiaeth sydd wedi cael ei hadnabod fel bod yn bwysig i'r ardal leol trwy:

- a. Osgoi ardrawiad niweidiol sylweddol trwy leoli datblygiad sensitif;
- b. Ystyried cyfleon i greu, gwella a rheoli cynefinoedd bywyd gwyllt a thirwedd naturiol gan gynnwys coridorau bywyd gwyllt, cherrig sarn, coed, gwrychoedd, coedlannau a chyrsgiau dŵr.

Gwrthodir cynigion sy'n effeithio ar safleoedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth leol oni bai gellir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol i gyd:-

1. Sicrhau Nad oes yno safle amgen arall ar gyfer y datblygiad.
2. Sicrhau fod y datblygiad wedi ei leoli'n briodol, gan osgoi lleoliadau sydd o bwysigrwydd bioamrywiaeth rhyngwladol, genedlaethol a lleol.
2. Bod yr angen am y datblygiad yn gorbwyso pwysigrwydd y safle i gadwraeth natur lleol.
3. Bod mesurau lliniaru neu ddigolledu priodol yn cael eu cynnwys fel rhan o'r cynnig.
3. Darparu mesurau er mwyn lliniaru effaith andwyol posib.
4. Gwarchod a chyfoethogi'r nodweddion cadwraeth natur.
5. Creu, gwella a rheoli cynefinoedd bywyd gwyllt a thirwedd naturiol gan gynnwys coridorau bywyd gwyllt a cherrig sarn.
6. Cyfrannu tuag at wireddu'r targedau a osodwyd yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol.

Ble'n angenrheidiol dylid cynnwys gyda'r cais cynllunio Asesiad Ecolegol sydd yn nodi'r materion bioamrywiaeth **lleol** berthnasol.

~~Pan na all datblygiad warchod a gwella bioamrywiaeth a ble fo'r angen am y datblygiad yn gorbwyso pwysigrwydd y safle i gadwraeth natur dylid dangos yn glir nad oes lleoliad arall priodol ar gael a bod mesurau lliniaru neu ddigolledu priodol mewn lle.~~

Eglurhad:

**7.5.19 Mae Adran 40 o'r Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ("Deddf NERC") yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i**

**ystyried y dasg o warchod bioamrywiaeth, cyn belled ag y bo hynny'n gyson ag ymarfer y swyddogaethau hynny'n briodol.**

7.5.20 Nod y polisi hwn yw sicrhau gwarchodaeth a gwelliannau i fioamrywiaeth leol. Yn benodol bydd y polisi hwn yn fodd o warchod y rhywogaethau a'r cynefinoedd hynny sydd wedi cael eu hadnabod o fewn Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Leol Gwynedd a Môn. **Bydd y polisi yma yn rhoi gwarchodaeth i'r rhywogaethau a'r cynefinoedd cydnabyddiedig nad ydynt wedi eu lleoli ar unai safleoedd dynodedig rhyngwladol neu cenedlaethol (e.e. SoDdGA, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol) neu safleoedd dynodedig lleol (e.e. Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd Bywyd Gwyllt).**

~~7.5.20 Mae Adran 40 o'r Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ("Deddf NERC") yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i ystyried y dasg o warchod bioamrywiaeth, cyn belled ag y bo hynny'n gyson ag ymarfer y swyddogaethau hynny'n briodol.~~

**POLISI AMG5: GWARCHOD SAFLEOEDD O ARWYDDOCÂD RHANBARTHOL NEU LEOL**

Gwrthodir cynigion fyddai'n debygol o achosi niwed arwyddocaol uniongyrchol neu anuniongyrchol i Warchodfa Natur Lleol (GNLI), Safleoedd Bywyd Gwyllt (SBG) neu safleoedd daearegol/geomorfffaidd pwysig rhanbarthol (RIGS), oni bai fod modd profi fod yna angen gorbwysol cymdeithasol, amgylcheddol a/neu economaidd ar gyfer y datblygiad, ac nad oes yna safle arall addas a fyddai'n osgoi cael effaith andwyol ar safleoedd o werth cadwraeth natur **lleol a neu** phwysigrwydd daearegol lleol.

Pan ganiateir datblygiad, bydd angen sicrhau fod yna fesurau lliniaru priodol mewn lle. Fe fydd yn bosib defnyddio amodau a/neu rwymedigaethau cynllunio er mwyn diogelu gwerth bioamrywiaeth a daearegol y safle.

**Eglurhad:**

7.5.24 Gall Gwarchodfa Natur Lleol, Safleoedd Bywyd Gwyllt<sup>1</sup> a Safle Daearegol/Geomorfffaidd Pwysig Rhanbarthol gynnwys amrywiaeth o rinweddau

---

**Mae'r term 'Safle Bywyd Gwyllt yn cael ei ddefnyddio gan y Cynghorau i gynnwys y safleoedd hynny sy'n cael eu cyfeirio'r Polisi Cynllunio Cymru fel Safleoedd o Ddiddordeb o ran Cadwraeth Natur (SINCs). Mae Map Cyfyngiadau yn cynnwys 'Safleoedd Bywyd Gwyllt' a safleoedd bywyd gwyllt 'Ymgeisiol'. Mae'r diwethaf yn cyfeirio at safle sydd wedi ei gydnabod trwy arolwg pen desg gychwynnol fel gyda'r potensial i fod yn haeddu cael eu hystyried, tra bod 'Safle Bywyd Gwyllt' yn cyfeirio at y safleoedd hynny sydd wedi eu cadarnhau yn dilyn arolwg ag asesiad manwl yn erbyn cyfres o feini prawf. Bydd y polisi yma yn berthnasol i Safleoedd Bywyd Gwyllt. Gan nad oes asesiad cyflawn o'r safleoedd bywyd gwyllt 'Ymgeisiol' eisoes wedi ei gynnal hyd yn hyn, bydd eu gwerth bioamrywiaeth yn cael ei arfarnu fesul safle pryd bydd cynigon**

cadwraeth natur a nodweddion o werth daearegol gan gynnwys amrediad o gynefinoedd sydd yn cefnogi ystod o rywogaethau. **Mae lleoliad y safleoedd hyn wedi ei nodi ar Map Cyfyngiadau y Cynllun**

7.5.25 Disgwylir i geisiadau cynllunio sydd yn effeithio ar safleoedd **sydd wedi eu rhestru o dan y polisi yma** ~~o bwysigrwydd i gadwraeth natur leol~~ gynnwys Asesiad Ecolegol o'r safle. Bydd yn hanfodol i'r Asesiad gael ei gynnal gan unigolyn cymwys proffesiynol a chynnwys asesiad o unrhyw fesurau lliniaru posib. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael ei gyhoeddi i roi arweiniad ar y mater.

## **Pwynt Gweithredu S6/PG7 – Atodiad**

*Cyflwyno Newid Materion a Godir i gynnwys enwau'r Gwarchodfeydd Natur Leol, Safleoedd Bywyd Gwyllt, Geoparc Môn, a Safle Treftadaeth y Byd.*

### **Ymateb y Cynghorau**

Diwygio Atodiad 7 er cynnwys 'rhybudd iechyd' ar ddechrau'r Atodiad gan fod y wybodaeth yn gyfyngedig i amser penodol h.y. gall safleoedd newydd gael eu hychwanegu yn ystod cyfnod y Cynllun, neu i'r gwrthwyneb, gall monitro ac adolygiad o'r dynodiadau arwain at dynnu'r dynodiant.

Mewn ymateb i'r pwynt gweithredu mae'r Newid Materion a Godir hefyd yn cynnwys Rhestr o Warchodfeydd Natur Leol, Safleoedd Bywyd Gwyllt, Geoparc Môn, a Safle Treftadaeth y Byd.

Mae'r wybodaeth cyflwynir yn y tablau canlynol yn gywir [dyddiad mabwysiadu].

<b><u>Gwarchodfeydd Natur Leol</u></b>		
<b><u>Gwynedd</u></b>	<b><u>Môn</u></b>	
<ol style="list-style-type: none"><li><b><u>Morfa Aber,</u></b></li><li><b><u>Traeth Lafan,</u></b></li><li><b><u>Morfa Madryn,</u></b></li><li><b><u>Y Foryd,</u></b></li><li><b><u>Parc Dudley,</u></b></li><li><b><u>Lôn Cob Bach,</u></b></li><li><b><u>Pen y Banc,</u></b></li><li><b><u>Parc y Borth</u></b></li></ol>	<ol style="list-style-type: none"><li><b><u>The Dingle/ Nant y Pandy, Llangefni</u></b></li><li><b><u>Llangoed Commons</u></b></li><li><b><u>Cytir Mawr, Llandegfan</u></b></li><li><b><u>Wylfa Head</u></b></li><li><b><u>Aberlleiniog</u></b></li><li><b><u>Coed Cynol, Menai Bridge</u></b></li></ol>	

**ddatblygu yn dod i law yn y lleoliadau hyn. Ni fydd Polisi AMG5 yn gymwys oni bai bod yr arolwg a'r asesiad manwl yn amlygu ei bod y cwrdd gyda'r meini ar gyfer dynodi perthnasol.**



Safleoedd Bywyd Gwyllt <sup>2</sup>

<u>Gwynedd</u>	154. <u>Coed Bryn Llwyd</u>	305. <u>Glan Tywyn</u>
1. <u>Nant Meillionydd</u>	155. <u>Bryn Llwyd</u>	306. <u>Coedydd Ystad Bodior</u>
2. <u>Coed Caerdydd</u>	156. <u>Gorphwysfa (Brewery Fields)</u>	307. <u>Craig Dinas</u>
3. <u>Mur-Serchog</u>	157. <u>Treborth Road Woodlands</u>	308. <u>Rhostir Ty'n Mynydd</u>
4. <u>Nyffryn Bella</u>	158. <u>Ty'n y Clwt</u>	309. <u>Tywyn Bryn-y-Bar</u>
5. <u>Pen-y-foel</u>	159. <u>Ysgol Faenol</u>	310. <u>Cae-Barcdy</u>
6. <u>Ty Engan</u>	160. <u>Railway cuttings (Treborth)</u>	311. <u>Arfordir Bwth Corwgl – Bae Trearddur</u>
7. <u>Plas yn Rhiw</u>	161. <u>Treborth Woods</u>	312. <u>Cors Trewilmot</u>
8. <u>Nanhoron</u>	162. <u>Treborth Botanic Gardens</u>	313. <u>Chwarel Morglawdd Caergybi</u>
9. <u>Tyn Lon</u>	163. <u>Goetra Isaf</u>	314. <u>Rhostir Mynydd Celyn</u>
10. <u>Abersoch, Borth Fawr</u>	164. <u>Bryniau-heulog</u>	315. <u>Cors Pont Hwfa</u>
11. <u>Bwlchtocyn</u>	165. <u>Mausoleum woodland and pasture</u>	316. <u>Gwely Brwyn Cliperau</u>
12. <u>Fach Farm</u>	166. <u>Vaynol Wood</u>	317. <u>Tywyn Gwyn/ Penial Dowyn</u>
13. <u>Rhandir mosaic</u>	167. <u>Vaynol Park woodlands and lake</u>	318. <u>Arfordir Penbryn yr Eglwys</u>
14. <u>Creiqir Goch</u>	168. <u>Ty-newydd</u>	319. <u>Arfordir Porth Nobla - Traeth Mawr</u>
15. <u>Dwylan Bellaf / Dwylan</u>	169. <u>Tyddyn-Heilyn</u>	320. <u>Coedydd Ystad Bodorgan</u>
16. <u>Craigfryn</u>	170. <u>Coed Nant y Garth</u>	321. <u>Gwely Cyrs Caergeiliog</u>
17. <u>Afon Soch (South West)</u>	171. <u>Coed Pont Ladi-wen</u>	322. <u>Cae Ifan</u>
18. <u>Afon Soch (South East)</u>	172. <u>Gwyndy</u>	323. <u>Tywyn Llyn/ Tywyn Fferam</u>
19. <u>Afgon Soch (North West)</u>	173. <u>Llanfair Wood &amp; nearby copses</u>	324. <u>Tyn Morfa</u>
20. <u>Afon Soch (North East)</u>	174. <u>Cefn-Cynrig</u>	325. <u>Cors Ysgwydd</u>
21. <u>Pant Gwyn</u>	175. <u>Rhos-chwilog (North)</u>	326. <u>Cors Fferam-Bach</u>
22. <u>Macroes Mosaic (West)</u>	176. <u>Rhos-chwilog (South)</u>	327. <u>Tyddyn Harri</u>
23. <u>Macroes Mosaic (East)</u>	177. <u>Pont-rug</u>	328. <u>Cors Rhosbadrig</u>
24. <u>Penrhyn Du</u>	178. <u>Pen-yr-orsedd</u>	329. <u>Cors Tafarn-y-Grib</u>
25. <u>Gwinllan Olwen Bach</u>	179. <u>Afon Cadnant</u>	330. <u>Tywyn Trewan</u>
26. <u>Coed Creigiau-cathod</u>	180. <u>Lon-glai</u>	331. <u>Tyddyn Gwyn</u>
27. <u>Coed Dinam</u>	181. <u>Penrhyn Stud</u>	332. <u>Rhostir/ Pwll Caergeiliog</u>
28. <u>Wierglodd Garn / Rhos</u>	182. <u>Gallt-y-sil farm</u>	333. <u>Cors Plas</u>
29. <u>Cei Llydan</u>	183. <u>Waenfawr Road</u>	334. <u>Coed Carreglwyd</u>
30. <u>Trwyn-y-Fach / The Warren</u>	184. <u>Afon Seiont Mosaic (South)</u>	335. <u>Clwch Dernog</u>
31. <u>Coed Penrallt</u>	185. <u>Afon Seiont Mosaic (East)</u>	336. <u>Llyn Cors Goch</u>
32. <u>Morfa Nefyn</u>	186. <u>Maes-merddin</u>	337. <u>Coed Tre Iorwerth</u>
33. <u>Ty'n Pwll</u>	187. <u>Gwredog</u>	
	188. <u>Pen-y-groes</u>	
	189. <u>Pen y Castell</u>	
	190. <u>Craig y Pandy</u>	
	191. <u>Corbri</u>	

<sup>2</sup> Please note that the list of Wildlife Sites is correct at the date of adoption. To see if any sites have been added or removed from this list please visit Cofnod's webpage (i.e. the Local Biological Record Centre) <http://safleol.lrcwales.org.uk/>

34. <a href="#">Garn Boduan</a>	192. <a href="#">Parc y Moch</a>	338. <a href="#">Llyn Bwch</a>
35. <a href="#">Western flank of Garn Boduan</a>	193. <a href="#">Ymwloch Fawr</a>	339. <a href="#">Cors Tre'r Ddol</a>
36. <a href="#">Gors Tynrhos</a>	194. <a href="#">Ymwloch Bach</a>	340. <a href="#">Rhostir Mynydd Mechell</a>
37. <a href="#">Coed Mynydd Mawr</a>	195. <a href="#">Rhydd Rhos 1</a>	341. <a href="#">Cors y Bol</a>
38. <a href="#">Pyllau-Budron</a>	196. <a href="#">Rhydd Rhos 2</a>	342. <a href="#">Tir Lleidiog Mynydd y Garn</a>
39. <a href="#">Nr.Tyddyn Cae</a>	197. <a href="#">Coed y Chwarel</a>	343. <a href="#">Cors Mynachdy</a>
40. <a href="#">Coed Bachellyn</a>	198. <a href="#">Coed Tan-yr-allt</a>	344. <a href="#">Cors Bonw</a>
41. <a href="#">Allt Ty Coch</a>	199. <a href="#">Coed Allt-wen</a>	345. <a href="#">Cors Cromlech</a>
42. <a href="#">Coed Cefn Llanfair</a>	200. <a href="#">Cefn Du</a>	346. <a href="#">Afon Wygyr</a>
43. <a href="#">Coed Bodgale</a>	201. <a href="#">Bwlch-y-groed Quarry</a>	347. <a href="#">Cors Cae Owen</a>
44. <a href="#">Quarry Wood</a>	202. <a href="#">East Talysarn Quarry</a>	348. <a href="#">Tir Gwlyb Teilia Neuadd</a>
45. <a href="#">Bodlende</a>	203. <a href="#">Coed Cegin</a>	349. <a href="#">Arfordir Trwyn y Buarth - Porth Wen</a>
46. <a href="#">Bryn teg</a>	204. <a href="#">Clwt y Bont</a>	350. <a href="#">Tir Lleidiog Llanlleiana</a>
47. <a href="#">Y Clawdd Mawr</a>	205. <a href="#">Clwt y Bont (East)</a>	351. <a href="#">Tir Lleidiog Ty Du</a>
48. <a href="#">Mynydd Nefyn 2</a>	206. <a href="#">Tyddyn-Ilwydyn</a>	352. <a href="#">Mynydd y Garn</a>
49. <a href="#">Mynydd Nefyn 1</a>	207. <a href="#">Rhyddallt-bach</a>	353. <a href="#">Trwyn Pencarreg</a>
50. <a href="#">Mynydd Nefyn 4</a>	208. <a href="#">Afon Beuno</a>	354. <a href="#">Arfordir Mynydd y Wylfa - Trwyn Penrhyn</a>
51. <a href="#">Bodeillas Quarry</a>	209. <a href="#">Bodwyn</a>	355. <a href="#">Tir Gwlyb Dwyran/ Afon Braint</a>
52. <a href="#">Mynydd Nefyn 3</a>	210. <a href="#">Lletty</a>	356. <a href="#">Gwinllan y Gors</a>
53. <a href="#">Cerniog Bach &amp; Isaf</a>	211. <a href="#">Ty'n-y-coed</a>	357. <a href="#">Rhos y Llyn</a>
54. <a href="#">Pont Penmaen</a>	212. <a href="#">Croesywaen</a>	358. <a href="#">Chwarel Llanidan</a>
55. <a href="#">Pont Pensarn</a>	213. <a href="#">Garreg-fawr Slate quarry</a>	359. <a href="#">Bryn Rhedyn , Niwbwrch</a>
56. <a href="#">Ffynnon Felin Bach</a>	214. <a href="#">Cyrnant</a>	360. <a href="#">Gwydryn</a>
57. <a href="#">Gwynfryn</a>	215. <a href="#">Coedydd Glyn Rhonwy</a>	361. <a href="#">Cors Llynfaes</a>
58. <a href="#">By Penlon Caernarfon</a>	216. <a href="#">Glyn Rhonwy Quarries woodland mosaic</a>	362. <a href="#">Llyn Frogwy</a>
59. <a href="#">Marian-y-mor (Lon Cob Bach)</a>	217. <a href="#">Glyn Rhonwy Quarries 1</a>	363. <a href="#">Coed Henblas</a>
60. <a href="#">Yr Ala, Pwllheli</a>	218. <a href="#">Glyn Rhonwy Quarries 2</a>	364. <a href="#">Dingle (Nant y Pandy)</a>
61. <a href="#">Pont y Carreg-fechan</a>	219. <a href="#">Glyn Rhonwy Quarries 3</a>	365. <a href="#">Gorchudden Gylched</a>
62. <a href="#">Pwllheli Harbour</a>	220. <a href="#">Ty'n-y-mynydd</a>	366. <a href="#">Fferam Parc</a>
63. <a href="#">Coed Farchog</a>	221. <a href="#">Y Fron Slate Quarries</a>	367. <a href="#">Cytir Llangristiolus</a>
64. <a href="#">Hafodlon</a>	222. <a href="#">Moel Smytho</a>	368. <a href="#">Cors Hendre Fawr</a>
65. <a href="#">Glyddyn Mawr</a>	223. <a href="#">Ty-newydd</a>	369. <a href="#">Clegyrdy-bach/Neuadd Wen/Ty'n Beudy</a>
66. <a href="#">Bryn Golau</a>	224. <a href="#">Cerriglwydion</a>	370. <a href="#">Cors Tregarnedd Fawr</a>
67. <a href="#">Tyddyn Ronnen</a>	225. <a href="#">Above Dinorwig</a>	371. <a href="#">Tir Pori Talwrn</a>
68. <a href="#">Covered Reservoir</a>	226. <a href="#">Nr. Chwarel Fawr</a>	372. <a href="#">Coed Cae Mawr</a>
69. <a href="#">Nr. Bryn Llangedwydd</a>	227. <a href="#">Dinorwic Slate Quarries</a>	373. <a href="#">Tir Gwlyb Glan-y-gors / Ty'n-y-mynydd</a>
70. <a href="#">Pont Hendre-garcin</a>	228. <a href="#">Ty Mawr</a>	374. <a href="#">Coed Bodafon-y-Glyn</a>
71. <a href="#">Bryn-penrhyn</a>	229. <a href="#">Pen-y-Bwlch</a>	375. <a href="#">Maen Eryr</a>
72. <a href="#">Pencraig (North)</a>	230. <a href="#">Maes-y-coed woods</a>	
73. <a href="#">Llwyn</a>	231. <a href="#">Pen-y-bryn</a>	
74. <a href="#">Llanarmon</a>	232. <a href="#">Bronygarth Hospital</a>	
75. <a href="#">Bryn Gwynt</a>	233. <a href="#">Abergafren</a>	
76. <a href="#">Plas Llanarmon</a>	234. <a href="#">Cae Canol</a>	
77. <a href="#">Gwinllan y Gromlech</a>	235. <a href="#">Nursery Wood</a>	
78. <a href="#">Llys Padrig</a>	236. <a href="#">Carreg-goch</a>	
79. <a href="#">Bryn Bachau Farm</a>	237. <a href="#">Parc y Borth</a>	
80. <a href="#">Gwinllan Cefn Rhosgyl</a>	238. <a href="#">Gwernddwryd</a>	
81. <a href="#">Rhos Gwag-y-noe</a>	239. <a href="#">Glan Morfa Bach</a>	
82. <a href="#">Chwilog Bach</a>	240. <a href="#">Dyffryn Nantlle Slate Quarries (East)</a>	
	241. <a href="#">Quarry below Marchlyn Bach</a>	
	242. <a href="#">Holyhead Road</a>	

83. <a href="#">Tyn Coed Uchaf</a>	<a href="#">woodland</a>	376. <a href="#">Mynydd Bodafon</a>
84. <a href="#">Cefn Coed</a>	243. <a href="#">Talhenbont Wood</a>	377. <a href="#">Coed Cefn Du</a>
85. <a href="#">Bryntirion</a>	244. <a href="#">Coed Mawr</a>	378. <a href="#">Cors Traeth Dulas</a>
86. <a href="#">Llynnoedd Afonwen</a>	245. <a href="#">Pebelig Graveyard</a>	379. <a href="#">Rhostir Ponciau</a>
87. <a href="#">Pen y Bryn</a>	246. <a href="#">Bryn Coch</a>	380. <a href="#">Cors Frigan</a>
88. <a href="#">By Butlins</a>	247. <a href="#">Dol Elidir</a>	381. <a href="#">Coed Llisdulas</a>
89. <a href="#">Pont Llwyn-gwyn</a>	248. <a href="#">Llainwen Isaf</a>	382. <a href="#">Llyn Llwyn-Crwn/ Sgarp Caerhos Lligwy</a>
90. <a href="#">Pen-y-bryn</a>	249. <a href="#">Coed Penmaen-mawr</a>	383. <a href="#">Prysan/ Galchfaen/ Fagwyr Fawr</a>
91. <a href="#">Drwsdeugoed</a>	250. <a href="#">Waggoner's Covert</a>	384. <a href="#">Chwarel Frigan</a>
92. <a href="#">Abererch Station</a>	251. <a href="#">Coed Tai-draw</a>	385. <a href="#">Pont Lligwy</a>
93. <a href="#">Pen Sarn</a>	252. <a href="#">Coed Llannerch yr Eryr</a>	386. <a href="#">Nant y Perfedd/ Traeth Lligwy</a>
94. <a href="#">Below Cwmgward</a>	253. <a href="#">Coed Craig Wenallt</a>	387. <a href="#">Coedydd Plas Lligwy</a>
95. <a href="#">Afon Llifon</a>	254. <a href="#">North west of Ty isaf</a>	388. <a href="#">Afon y Marchogion ac Ynys Isaf</a>
96. <a href="#">Garth Darwen (West)</a>	255. <a href="#">Coed Ty-nant</a>	389. <a href="#">Caeau Brynteg</a>
97. <a href="#">Garth Darwen (East)</a>	256. <a href="#">Coed Craig-crogan</a>	390. <a href="#">Tir Pori Traian</a>
98. <a href="#">Dafarn Dudur</a>	257. <a href="#">Coed Bryn Melyn</a>	391. <a href="#">Caeau Capel Brynrefail</a>
99. <a href="#">South of Coch y Rhwd</a>	258. <a href="#">Wern Dywyll</a>	392. <a href="#">Graigfryn</a>
100. <a href="#">Afon Llyfni (North 1)</a>	259. <a href="#">Caecano Mawr</a>	393. <a href="#">Arfordir Porth Wen - Porth Llechog</a>
101. <a href="#">Afon Llyfni (North 2)</a>	260. <a href="#">Carreg Ddu</a>	394. <a href="#">Porth Llechog</a>
102. <a href="#">Afon Llyfni (South 1)</a>	261. <a href="#">Cefn Trwsq</a>	395. <a href="#">Llyn Llaethdy</a>
103. <a href="#">South of Llenar Fawr</a>	262. <a href="#">Ffestiniog Slate Quarry</a>	396. <a href="#">Cors Tal-y-Dyffryn</a>
104. <a href="#">Llanlyfni</a>	263. <a href="#">Llyn Cwmorthin</a>	397. <a href="#">Arfordir Llam Carw - Porthrychen</a>
105. <a href="#">Butlins 1</a>	264. <a href="#">Oakeley Square</a>	398. <a href="#">Arfordir Point Lynas/ Freshwater Bay</a>
106. <a href="#">Afon Wen</a>	265. <a href="#">Mynydd Cymerau</a>	399. <a href="#">Pyllau Pentrefelin/ Dyffryn Adda</a>
107. <a href="#">Lon Penrallt</a>	266. <a href="#">Ffridd Coed</a>	400. <a href="#">Mynydd Parys</a>
108. <a href="#">Lon Tan-y-Bryn</a>	267. <a href="#">Tan-yr-allt</a>	401. <a href="#">Mynydd Eilian</a>
109. <a href="#">Tuhwnt-i'r-gors</a>	268. <a href="#">Corris quarry</a>	402. <a href="#">Arfordir Porthrychen - Porth Eilian</a>
110. <a href="#">Bodlondeb Home Woods</a>	269. <a href="#">Coed Braich Goch northwards</a>	403. <a href="#">Coed Glanyrafon</a>
111. <a href="#">Plas Brereton</a>	270. <a href="#">Aber Corris</a>	404. <a href="#">Llwyn Padoq/ Llwyn Bonc</a>
112. <a href="#">Bont y Chrychddwr</a>	271. <a href="#">Abercwmmeiddaw Quarry</a>	405. <a href="#">Coed Moel y Don</a>
113. <a href="#">Dol-wenith</a>	272. <a href="#">Mynydd Cymerau Quarry</a>	406. <a href="#">Coed yr Ardd</a>
114. <a href="#">Brithdir-isaf</a>	273. <a href="#">Coed Ty'n-y-pant</a>	407. <a href="#">Coed Odyn Calch</a>
115. <a href="#">Ty 'rallt Farm</a>	274. <a href="#">Garregwen</a>	408. <a href="#">Llwyn Chwarel- Goch</a>
116. <a href="#">Rhos Broneifion</a>	275. <a href="#">Afon Seiont, Caernarfon</a>	409. <a href="#">Coed Bryncelli Ddu</a>
117. <a href="#">Gell Farm</a>	276. <a href="#">Glan-gynfi</a>	410. <a href="#">Cors Bod-Ynys</a>
118. <a href="#">Coed Mawr</a>	277. <a href="#">Porth Penrhyn Mudflats</a>	411. <a href="#">Coed Plas Gwyn</a>
119. <a href="#">Coed Trefan (South)</a>	278. <a href="#">Glan-y-don</a>	412. <a href="#">Coed Ty Fry</a>
120. <a href="#">Nr.Talysarn</a>	279. <a href="#">Sports ground &amp; Sewage works</a>	413. <a href="#">Coed Braint/ Siglen/ Dyfnia</a>
121. <a href="#">Below Ty'n-y-coed</a>	280. <a href="#">Groeslon South</a>	
122. <a href="#">Nant Stigallt</a>	281. <a href="#">Above Bron Ogwen</a>	
123. <a href="#">Below Talysarn</a>	282. <a href="#">Henbarc</a>	
124. <a href="#">Gwinllan Tyddyn</a>	283. <a href="#">Bontuchaf</a>	
125. <a href="#">Clogwyn Melyn</a>	284. <a href="#">Gerlan</a>	
126. <a href="#">Mynydd y Cilgwyn</a>	285. <a href="#">Gwaun-y-gwiall (West)</a>	
127. <a href="#">Nant-noddfa</a>	286. <a href="#">Gwernydd</a>	
128. <a href="#">Dyffryn Nantlle Slate Quarries (West)</a>	287. <a href="#">Bryn Derwen</a>	
129. <a href="#">Bryn Beddau</a>	288. <a href="#">Coed Bryn Meurig</a>	
130. <a href="#">Dolau Gwyn</a>	289. <a href="#">Coed Glasgoed</a>	
131. <a href="#">Pen-y-bryn quarries</a>	290. <a href="#">Pen y Buarth</a>	
132. <a href="#">Dyffryn Nantlle</a>	291. <a href="#">Deiniol House</a>	
133. <a href="#">Woodlands in Penrhyn Park 2</a>	292. <a href="#">Coed Blaen-y-cae</a>	

<p>134. <u>Penrhyn Bridge Swamp</u></p> <p>135. <u>Llandegai woodlands</u></p> <p>136. <u>Tal-y-bont woodlands</u></p> <p>137. <u>Felin Cochwillan to Talybont</u></p> <p>138. <u>Plas Maes-y-groes</u></p> <p>139. <u>Roman Camp</u></p> <p>140. <u>Nant Porth Farm copses</u></p> <p>141. <u>Penrhyn Arms Wood</u></p> <p>142. <u>Bangor Mountain</u></p> <p>143. <u>Golf course scrub &amp; woodland</u></p> <p>144. <u>Lon Pobty</u></p> <p>145. <u>Llandegai Estate</u></p> <p>146. <u>Llandegai - Glasinfryn woodlands</u></p> <p>147. <u>Coed Lon Pobty</u></p> <p>148. <u>Glanadda Hill</u></p> <p>149. <u>Bryn Glas</u></p> <p>150. <u>Minffordd to Pant Caerhun</u></p> <p>151. <u>Cyttir Lane Woods</u></p> <p>152. <u>Perfeddgoed</u></p> <p>153. <u>Tair Ffynnon Uchaf</u></p>	<p>293. <u>Baron Hill</u></p> <p>294. <u>Glan y Gors</u></p> <p>295. <u>Llyn Pant Afon</u></p> <p>296. <u>Tan-y-coed</u></p> <p>297. <u>Glanffynnon</u></p> <p>298. <u>Rhos ddu</u></p> <p>299. <u>Clwt y Bont (West)</u></p> <p>300. <u>Clwt y Bont massif</u></p> <p>301. <u>Bron-y-foel</u></p> <p><u>Môn</u></p> <p>302. <u>Porth Diana i Arfordir Cefn y Borth a Rhos Ty'n y Mynydd</u></p> <p>303. <u>Pwll Porth Diana</u></p> <p>304. <u>Cors Cerrig-moelion</u></p>	<p>414. <u>Afon Nodwydd/ Traeth Coch</u></p> <p>415. <u>Bryn Hyrddin</u></p> <p>416. <u>Planhigfa Clyddyn</u></p> <p>417. <u>Coed Vivian/ Cors Wiber</u></p> <p>418. <u>Cors Durley Dene</u></p> <p>419. <u>Coed Plas Cadnant</u></p> <p>420. <u>Cytir Llandegfan</u></p> <p>421. <u>Coed Plas</u></p> <p>422. <u>Yr Orchudden Wastad</u></p> <p>423. <u>Llyn Pen-y-Parc</u></p> <p>424. <u>Coedydd Ystad Baron Hill</u></p> <p>425. <u>Ty'n y Berllan</u></p> <p>426. <u>Ty'n-y-mynydd/ Rhos/ Glan-yr-afon</u></p> <p>427. <u>Rhostir Bwlch</u></p> <p>428. <u>Cefn Llech</u></p> <p>429. <u>Cae Marl</u></p> <p>430. <u>Y Bonc</u></p> <p>431. <u>Coedlas Marian-glas</u></p> <p>432. <u>Cors y Bwlch</u></p> <p>433. <u>Cors Efail Newydd</u></p> <p>434. <u>Breeze Hill</u></p> <p>435. <u>Coed y Wern</u></p> <p>436. <u>Dingle Hafod-y-Rhug</u></p> <p>437. <u>Rhos Castell/ Bryn Offa</u></p> <p>438. <u>Parc Newydd</u></p> <p>439. <u>Tir Pori Hen Dy</u></p> <p>440. <u>Cae Tan Rallt Wen / Bwlch y Ffos</u></p> <p>441. <u>Arfordir Tan Dinas</u></p> <p>442. <u>Dolydd Lleiniog</u></p> <p>443. <u>Chwarel Flagstaff/ Chwarel Penmon</u></p> <p>444. <u>Chwarel Penhwnllys</u></p>
<u>Geoparc Byd Eang UNESCO</u>		
<u>Môn</u>		
1. <u>GeoMôn</u>		
<u>Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO</u>		
<u>Gwynedd</u>	<u>Môn</u>	

1. Castell Caernarfon

2. Castell Beaumaris

## **Pwynt Gweithredu S6/PG8 – Gwarchodfeydd Natur Lleol**

*Darparu papur cryno i ddisgrifio Gwarchodfeydd Natur Lleol a Safleoedd Bywyd Gwyllt: y broses dynodi, rhesymau dros y dynodiad, a.y.b.*

### **Ymateb y Cynghorau**

#### **1. Gwarchodfeydd Natur Lleol**

##### **1.1 Cefndir**

1.1.1 Mae Gwarchodfa Natur Leol (GNL) yn ardal o harddwch naturiol ble mai'r prif nod yw cadw a mwyhau'r amgylchedd er budd bywyd gwyllt a phobl. Mae'r amgylchedd yma'n cynnwys bywyd gwyllt cynhenid (fflora a ffawna) ac arteffactau diwylliannol, sydd i gyd yn gorwedd yn y tirlun gweledol. Mae'r Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLI) yn cydnabod hawliau cyfreithiol a thraddodiadol pobl, yn lleol ac fel ymwelwyr, i gael mynediad ac i fwynhau'r ardaloedd hyn, gan geisio cael cydbwysedd a chyfannu'r rhain gyda chadw a mwyhau'r amgylchedd naturiol.

1.1.2 Gall GNLI gynnwys pob math o gynefinoedd, yn eu plith mae coetir rhannol naturiol, dolydd glas, rhostir, coridorau afonydd, pentiroedd arfordirol a chyn chwareli. Mae'r ardal ble mae GNLI yn gweithredu fel adnodd pwysig i fywyd gwyllt gan gyfrannu'n sylweddol at fioamrywiaeth yn y DU.

##### **1.2 Diben GNLI**

1.2.1 Caiff Gwarchodfa Natur ei diffinio yn Adran 15 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, fel:

*“Land managed for the purpose of:*

*(a) providing, under suitable conditions and control, special opportunities for the study of, and research into, matters relating to the flora and fauna of Great Britain and the physical conditions in which they live, and for the study of geological and physiographical features of special interest in the area; or*

*(b) Preserving flora, fauna, or geological or physiographical features of special interest in this area; or for both these purposes.”*

1.2.2 Mae'r GNLI yn bwysig yng nghyd-destun Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLI). Mae llawer ohonynt yn cynnig cyfle i'r gymuned gael ei chynnwys gan eu bod yn fannau poblogaidd i hamddena a mwynhau'r amgylchedd naturiol ac yn arbennig o bwysig o safbwynt addysgol gan y cânt eu defnyddio gan ysgolion, colegau a sefydliadau addysg uwch.

### **1.3 Dewis GNL**

Fel arfer bydd GNLI posib yn cael eu hadnabod gan aelodau o'r gymuned leol, y Cyngor Tref neu Gymuned leol gan eu dewis ar sail y meini prawf isod:

1) Diddordeb naturiol uchel yn y cyd-destun lleol (Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig SoDdGA - neu gyfatebol).

2) Diddordeb naturiol a gwerth uchel yng nghyd-destun y Sir/Gymuned i addysg ffurfiol neu ymchwil.

3) Diddordeb naturiol a gwerth uchel yng nghyd-destun y Sir/Gymuned ar gyfer mwynhau natur yn anffurfiol gan y cyhoedd.

4) Unrhyw gyfuniad o 1-3.

5) Modd ei rheoli gyda chadwraeth natur yn flaenoriaeth.

### **1.4 Sefydlu GNLI - Ymgynghoriad**

1.4.1 Mae Deddf 1949 yn gofyn bod ymgynghori gyda CNC (Cyfoeth Naturiol Cymru) fel olynedd i Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) ar ddwy lefel:

1) Ymgynghoriad anffurfiol a sylwadau ar y cynllun rheoli drafft.

2) Ymgynghoriad ffurfiol wedi ei ysgogi gan yr awdurdod sy'n datgan.

1.4.2 Mae'r cyrff eraill y gellid ymgynghori â hwy yn cynnwys, ond ddim wedi eu cyfyngu i, Cynghorau Tref neu Gymuned, yr Awdurdod Lleol, trigolion lleol, perchnogion tir perthnasol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, RSPB, Coed Cymru, Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd, CADW ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru.

### **1.5 Datganiad**

1.5.1 Caiff GNLI eu datgan gan yr Awdurdod Lleol dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad, 1949. Ar Ynys Môn, mae'r dull a fabwysiadwyd i ddatgan GNLI yn defnyddio Deddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n caniatáu i Awdurdodau Lleol i ddirprwyo pŵer i Gyngor Tref neu Gymuned i ddatgan GNL. Rhaid i'r awdurdod sy'n datgan gael budd cyfreithiol yn y tir er mwyn sefydlu'r GNL.

## **1.6 Rheoli Gwarchodfeydd Natur Lleol**

1.6.1 Dylai GNLI gael eu rheoli fel bod unrhyw nodweddion o ddiddordeb arbennig yn cael eu cynnal. Caiff cynlluniau rheoli eu llunio i bob GNL sy'n disgrifio'r cynefin, nodweddion o ddiddordeb, camau rheoli ymarferol, amserlenni ac ati. Bydd pwyllgor rheoli wedyn yn cael ei sefydlu sy'n cynnwys yr awdurdod datgan (er enghraifft Menter Môn ar Ynys Môn) a pherchnogion tir sydd yn y warchodfa. Gellid cyfethol cyrff eraill ar y pwyllgor fel ymgynghorwyr rheoli. Mae gan y GNLI hefyd wardeniaid gwirfoddol - pobl leol sy'n gyffredinol yn cadw llygad ar y gwarchodfeydd. Mae rhai o'u dyletswyddau yn cynnwys gwirio cyflwr y llwybrau, pontydd ac ati, nodi materion a digwyddiadau sydd angen mynd i'r afael â hwy, ac adrodd ar weithgareddau fel cŵn yn baeddu a thipio slei bach.

## **2. Safleoedd Bywyd Gwyllt**

### **2.1 Cefndir**

2.1.1 Mae Safleoedd Bywyd Gwyllt yn lleoedd a ystyrir o bwysigrwydd lleol oherwydd eu gwerth bioamrywiaeth. Gellir nodi Safleoedd Bywyd Gwyllt gan feini prawf a ddatblygwyd yn lleol a dyma'r lleoedd pwysicaf i fywyd gwyllt a bioamrywiaeth y tu allan i'r safleoedd statudol megis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SODdGA).

2.1.2 Mae gan ardal y CDLI ar y Cyd amrywiaeth gyfoethog o rywogaethau a chynefinoedd ac adlewyrchir hyn yn nifer y safleoedd a ddynodwyd am eu pwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r ardal yn gadarnle i lawer o rywogaethau prin megis y wiwer goch, y frân goesgoch a'r ystlum pedol leiaf a cheir enghreifftiau da o sawl cynefin dan fygythiad, megis twyni tywod, corsydd a rhostir iseldir. Mae Safleoedd Bywyd Gwyllt yn aml yn cyfrannu ar gymeriad unigryw tirlun yr ardal.

2.1.3 Mae gan y Cynghorau ddyletswydd i warchod ein hadnodd bioamrywiaeth ar gyfer cenedlaethau i ddod. Mae Safleoedd Bywyd Gwyllt, ynghyd â safleoedd statudol, yn sail i adnodd bywyd gwyllt ardal. Islaw lefel isafswm, ni all bywyd gwyllt adfer i lefel gynaliadwy. Dylid rhwystro colli neu ddifrodi Safleoedd Bywyd Gwyllt a safleoedd statudol ble bo'n bosib, er mwyn datblygu amgylchedd cynaliadwy.

### **2.2 Amcanion Safleoedd Bywyd Gwyllt**

- Gwarchod ardaloedd o werth bioamrywiaeth pwysig - Mae Safleoedd Bywyd Gwyllt yn hanfodol er mwyn caniatáu i'r system gynllunio adnabod a thrwy hynny warchod ardaloedd o werth bioamrywiaeth pwysig sydd y tu allan i rwydwaith safleoedd a ddiogelir yn statudol.

- Gwella'r adnodd bioamrywiaeth - Gellir targedu Safleoedd Bywyd Gwyllt er mwyn gwella cynefinoedd, sy'n rhan bwysig o'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a Strategaethau Bioamrywiaeth Cenedlaethol.
- Sicrhau bod cysylltiadau drwy'r tirlun yn cael eu cadw - Nid yw bywyd gwyllt wedi'i gyfyngu gan ffiniau a safleoedd a ddynodwyd yn statudol, mae llawer o rywogaethau yn teithio ar draws cefn gwlad ac maent angen coridorau cynefin a cherrig camu i gysylltu â lleoedd eraill fyddai fel arall yn ardaloedd bywyd gwyllt arunig. Mae cysylltiadau yn rhoi elfen gref i Safleoedd Bywyd Gwyllt a safleoedd statudol fel ei gilydd.
- Cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy - Mae cael Safleoedd Bywyd Gwyllt sy'n goroesi ac yn cael eu gwarchod yn ddangosydd allweddol o ddatblygiad cynaliadwy ac mae'n cyfrannu tuag at ansawdd bywyd a lles y gymuned gan roi cyfleoedd ar gyfer ymchwil ac addysg.

## 2.3 Statws mewn cynllunio a'r gyfraith

- 2.3.1 Maent yn safleoedd anstatudol heb eu dynodi gan unrhyw ddeddf benodol, ond gan gyfres o bolisiau a deddfwriaeth. Rhoddodd Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006 ddyletswydd ar awdurdodau lleol i warchod bioamrywiaeth drwy weithredu eu swyddogaethau. Erbyn hyn yng Nghymru, cafwyd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 sydd wedi cymryd lle'r uchod gyda mwy o ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i gadw a mwyhau bioamrywiaeth.
- 2.3.2 Dywed Erthygl 10 o Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE 1992: *“Member states shall endeavour, where they consider it necessary, in their land use planning and development policies, and, in particular, with a view to improving the ecological coherence of the Natura 2000 network, to encourage the management of features of the landscape which are of major importance for wild flora and fauna”*.
- 2.3.3 Cafodd hwn ei drosglwyddo i ddeddfwriaeth genedlaethol fel rheol 37, Rheoliadau Cynefinoedd 1994 sy'n gofyn am i gynlluniau datblygu gynnwys polisiau ar gyfer gwarchod coridorau bywyd gwyllt a cherrig camu. Bydd Safleoedd Bywyd Gwyllt yn gymorth i gyflawni'r swyddogaeth ecolegol yma.
- 2.3.4 Dywed paragraff 5.5.1 Polisi Cynllunio Cymru (2016) *“Rhaid ystyried bioamrywiaeth a thirwedd wrth benderfynu ar geisiadau unigol ac wrthgyfrannu at roi prosiectau penodol ar waith. Gall effaith cynnig datblygu ar fywyd gwyllt neu dirwedd unrhyw ardal fod yn ystyriaeth berthnasol. Mewn achosion o'r fath ac er mwyn sicrhau datblygu cynaliadwy mae'n bwysig cadw'r ddysgl yn wastad rhwng amcanion cadwraeth ac anghenion*



*economiaidd ehangach y busnesau a'r cymunedau lleol. Lle bynnag y bydd datblygu, mae'n bwysig sicrhau y cymerir pob cam rhesymol i ddiogelu neu wella ansawdd amgylcheddol y tir. "*

- 2.3.5 Dywed Polisi Cynllunio Cymru (Adran 5.3.11) "*Ni chaiff dynodiadau o'r fath gyfyngu'n ormodol ar ddatblygu derbyniol*" Cyfeiria Adran 5.5 o Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009) at 'safleoedd lleol'. Cydnabyddir ynddo bwysigrwydd cyfraniad Safleoedd Bywyd Gwylt i weithredu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth a phwysigrwydd mawr rheoli nodweddion y tirlun i rywogaethau. Dywed y dylai datblygwyr, os yn bosib, osgoi niweidio Safleoedd Bywyd Gwylt. Os yw difrod yn anochel, dylid defnyddio mesurau lliniaru i leihau'r effaith.
- 2.3.6 Mae ansawdd holl gynefinoedd bywyd gwylt yn ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cynllunio, i lywio'r gwaith o wneud penderfyniad a'r dewisiadau. Mae gan y mwyafrif (os nad y cwbl) o'r Safleoedd Gwylt gynefinoedd a restrwyd dan Adran 42 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) (2006).

## **2.4 Meini prawf dewis**

- 2.4.1 Mae paragraff 5.3.11 PCC yn nodi "*Dylai dynodiadau anstatudol, megis Ardaloedd Tirwedd Arbennig neu Safleoedd o Ddiddordeb o ran Cadwraeth Natur, gael eu seilio yn gadarn ar asesiad gwyddonol ffurfiol o werth y safle o ran cadwraeth natur, tirwedd neu ddaeareg. Gall dynodiadau anstatudol lleol ychwanegu gwerth at y broses gynllunio, yn enwedig os oes lle ynddynt i gyfranogiad gan y gymuned ac os ydynt yn adlewyrchu gwerthoedd cymunedol. Fodd bynnag, ni ddylai awdurdodau cynllunio lleol gymhwyso'r dynodiadau hyn at ardaloedd o werth sylweddol o ran cadwraeth onid oes rheswm da dros gredu nad oes modd i bolisiau cynllunio arferol eu diogelu'n briodol.*"
- 2.4.2 Mae'r Tabl isod yn amlinellu'r broses benodol sydd wedi digwydd yn Ynys Môn a Gwynedd wrth ddewis 'safleoedd bywyd gwylt'.

<p><b>Ynys Môn</b></p> <p>Argymhella canllawiau'r Llywodraeth mai dim ond safleoedd sydd â 'gwerth cadwraeth sylweddol' ddylid eu dewis i fod yn Safleoedd Bywyd Gwyllt. Bydd safleoedd yn cynnal cynefinoedd a/neu rywogaethau o ddiddordeb cadwraeth benodol, fel y rhai a restrir dan Adran 42 o Ddeddf NERC (2006) fel safleoedd o'r 'pwysigrwydd cadwraeth pennaf'. Y prif maen prawf i ddewis Safleoedd Bywyd Gwyllt ar Ynys Môn ym mhob achos yw eu <i>naturioldeb</i> cymharol. Seiliwyd hyn yn bennaf ar y Wildlife Sites Handbook, Hawkswell, S. (Gol.) (1997) meini prawf eraill i ddewis Safleoedd Bywyd Gwyllt yw <i>pa mor brin ydynt, maint ac amrywiaeth</i>, gydag ystyriaethau eraill sy'n gallu cynnwys:</p> <p><i>lleoliad yn yr uned ecolegol, cysylltiadau (yn cynnwys gyda'r safleoedd statudol) a gwerth addysgol/cymdeithasol.</i></p> <p>Yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg, mae gan bob safle ei mynegai sy'n nodi'r cynefinoedd a rhywogaethau (oni bai nad oedd mynediad yn bosib ar gyfer yr arolwg, ac yn yr achos yma bydd naturioldeb wedi ei gadarnhau gan ffotograffau o'r awyr). Mae safleoedd sy'n bodloni un neu fwy o'r meini prawf (gweler yr uchod) wedi eu dynodi fel Safleoedd Bywyd Gwyllt <i>ymgeisio</i> ar hyn o bryd .</p> <p>Rhestrwyd tua 140 o Safleoedd Bywyd Gwyllt ar Ynys Môn. Dechreuwyd ar y gwaith yma'n wreiddiol yn yr 1980au gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, ac mae'r safleoedd wedi bod yn amodol i adolygiadau a newidiadau ers</p>	<p><b>Gwynedd</b></p> <p>Argymhella canllawiau'r Llywodraeth mai dim ond safleoedd sydd â 'gwerth cadwraeth sylweddol' ddylid eu dewis i fod yn Safleoedd Bywyd Gwyllt.</p> <p>Mae'r meini prawf ar gyfer dewis Safleoedd Bywyd Gwyllt yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd wedi eu gosod yn "Safleoedd Bywyd Gwyllt Gwynedd: system ar gyfer eu dewis a'u dynodi" (ar gael yn <a href="http://www.gwynedd.gov.uk">www.gwynedd.gov.uk</a>) wedi ei gynhyrchu gan Dîm Bioamrywiaeth Gwynedd mewn ymgynghoriad gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru.</p> <p>Bwriad y meini prawf yw dewis y safleoedd hynny sy'n cynnal cynefinoedd a rhywogaethau a nodir yn Natur Gwynedd yn ogystal â'r rhai a nodwyd gan y Cynulliad dan adran 42, Deddf NERC 2006 sydd o bwysigrwydd mawr i fioamrywiaeth yng Nghymru. Yn aml, mae pwysigrwydd safle ar gyfer gwarchod bywyd gwyllt yn gysylltiedig â llawer o elfennau a rhinweddau. Bydd arfarniad safle yn edrych ar sawl un o'r ffactorau hyn er mwyn ceisio cael gwerthfawrogiad gwell o werth y safle i fioamrywiaeth. Y ffactorau allweddol hyn yw:</p> <p>Rhywogaethau, cynefinoedd, maint, prinder, amrywiaeth, cysylltiad a'r tirwedd, hyfywdra, pwysigrwydd lleol, dichonoldeb a gwerth cymdeithasol, fel a argymhellir gan y llawlyfr Safleoedd Bywyd Gwyllt (Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt 1997 a Defra 2006).</p> <p>Mewn ymarfer pen desg gwreiddiol, adnabuwyd 1,300 safle Bywyd Gwyllt ymgeisiol. Dewiswyd y rhain drwy ddefnyddio</p>
--	--

hynny, ac yn fwyaf diweddar asesiad cyflwr yn 2010 ac adolygiad ffiniau yn 2012-13 (gan ei ddiweddarau ymhellach yn 2014 a 2015), sy'n cynnwys staff y Cyngor, Cofnod ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru.

Mae terfynau'r Safleoedd Bywyd Gwyllt a'r cyfeiriadau yn cael eu cynnal yn digidol ar ran y Cyngor ar ar wefan Cofnod: <http://safleol.lrcwales.org.uk/> (ar gael yn gyhoeddus yn dilyn cofrestru'r safle). Defnyddiwyd y cofnod digidol o ffiniau'r safleoedd Bwyd Gwyllt ar gyfer Mapiau Cyfyngiadau'r CDLI ar y Cyd.

arolwg cynefin (CCGC), awyrluniau ynghyd â chofnodion cynefinoedd a rhywogaethau o wahanol ffynonellau. Gellir cael copi o'r map sy'n nodi lleoliad y safleoedd hyn gan Ganolfan Cofnodion Biolegol Lleol <http://safleol.lrcwales.org.uk/> (ar gael yn gyhoeddus yn dilyn cofrestru'r safle).

Mae 300 o'r safleoedd ymgeisiol hyn bellach wedi eu gwerthuso a'u cofnodi oherwydd eu pwysigrwydd ar gyfer cadwraeth natur yn yr ardal. Bydd safleoedd sy'n bodloni'r meini prawf yn cael eu hystyried ar gyfer eu dynodi yn Safleoedd Bywyd Gwyllt (gweler 'Safleoedd Bywyd Gwyllt Gwynedd: System ar gyfer eu dewis a'u dynodi').

Cedwir cofrestr o Safleoedd Bywyd Gwyllt a chaiff ei chynnal gan Gyngor Gwynedd ar ffurf map digidol a chronfa ddata. Defnyddiwyd y cofnod digidol o ffiniau'r safleoedd Bwyd Gwyllt ar gyfer Mapiau Cyfyngiadau'r CDLI ar y Cyd.

Mae angen gwneud arolwg o'r safleoedd ymgeisiol sydd ar ôl ynghyd ag asesiad o'u gwerth a'u haeddiant iw dynodi yn Safle Bywyd Gwyllt. Er hynny, oherwydd y nifer fawr o safleoedd ymgeisiol, nid yw'n bosib ar hyn o bryd i gynnal arolwg a'u gwerthuso i gyd yn systematig. Bydd gwerthusiad o safle fwy na thebyg yn cael ei sbarduno gan fwriad cynllunio ar y safle ymgeisiol neu'n agos ato. Mae Mapiau Cyfyngiadau'r CDLI ar y Cyd yn dangos lleoliad y safleoedd Bywyd Gwyllt ymgeisiol.